Pigodyn y Pysgodyn

Cyd weithio / Cyfeillgarwch / Doethineb

Yng ngwaelod y cefnfor roedd haig o bysgod yn byw. Byw efo'i gilydd oedden nhw. Ond roedd un ohonyn nhw'n bysgodyn arbennig iawn. Pigodyn oedd ei enw. Un diwrnod daeth pysgodyn anferth heibio a'i geg yn agored led y pen. Chwilio am fwyd oedd y pysgodyn mawr. Yn sydyn trodd, agorodd ei geg a llyncodd y pysgod i gyd ond un. Llwyddodd Pigodyn i ddianc, rywsut.

Wel, a dweud y gwir, pysgodyn bychan, bach oedd Pigodyn. A dyna pam y llwyddodd i ddianc o geg y pysgodyn anferth. Gan ei fod yn bysgodyn bychan byddai bob amser yn gwylio rhag ofn i bysgodyn mawr ddod a'i lyncu. Byddai'n arfer dweud wrth ei frodyr a'i chwiorydd, "Byddwch yn ofalus! Mae gan y pysgod mawr gegau anferth. Felly, byddwch yn ofalus!" Ond bellach roedd Pigodyn ar ei ben ei hun. Nofiai'n braf o gwmpas gan gadw'i lygaid yn agored rhag ofn i bysgodyn mawr ddod heibio. Bob munud bron roedd Pigodyn yn gweld rhywbeth newydd. Pysgod lliwgar! Planhigion prydferth! Cwrel pigog! Creigiau peryglus!

Ar ôl bod yn nofio o gwmpas am wythnosau ar ei ben ei hun, un diwrnod daeth ar draws haig o bysgod tebyg iddo ef ei hun. Mor hapus oedd Pigodyn o gael cwmpeini. Roedd y cefnfor yn le mor fawr a chymaint o elynion yn byw ynddo. Dywedodd Pigodyn ei hanes wrth y pysgod eraill. Dyna lle'r oedden nhw'n gwrando'n astud ar ei stori. Y pysgod lliwgar. Y planhigion prydferth. Y cwrel pigog. Y creigiau peryglus. Ac yna soniodd am yr hyn a ddigwyddodd i'r haig pysgod oedd ef yn perthyn iddyn nhw.

Dywedodd pob un o bysgod yr haig newydd eu bod hwythau hefyd ofn y pysgod mawr. Ond pysgodyn bychan doeth oedd Pigodyn. Galwodd bysgod yr haig i gyd at ei gilydd i wrando. "Gwrandewch" meddai Pigodyn, "does yna ond un ffordd y gallwn fwynhau bywyd a pharhau'n fyw. Mae'n rhaid i ni i gyd

aros efo'n gilydd. Beth am i ni wneud un grŵp mawr o bysgod sy'n edrych yn debyg i un pysgodyn mawr, anferth. Bydd hynny'n siŵr o ddychryn pob pysgodyn mawr sy'n byw yn y cefnfor.
Daeth y pysgod bychain at ei gilydd i wneud siâp pysgod mawr, anferth. Dyna lle'r oedd Pigodyn fel llygaid mawr i'r haig. O hynny ymlaen, dyna lle buo nhw'n nofio'n braf yn nyfroedd yr eigion. Bob dydd roedden nhw'n darganfod rhywbeth newydd. Pysgod lliwgar! Planhigion prydferth! Cwrel pigog! Creigiau peryglus a llawer, llawer mwy.
Roedd pob pysgodyn mawr ofn yr haig pysgod. Ac mi fuo nhw fyw am flynyddoedd efo'i gilydd – diolch i Pigodyn.

Arglwydd, mi fydda i'n teimlo'n union fel Pigodyn, ar brydiau yn fach, fach. Os gweli'n dda wnei di fy helpu pan fyddai'n teimlo felly. Amen.

✦ Ydio'n wir ein bod, bob amser, yn byw efo pobl eraill. Byw efo'n ffrindiau. Byw efo'n rhieni a'n brodyr a'n chwiorydd.
✦ Ydio'n bwysig ein bod yn dysgu cyd-fyw efo pobl eraill?